Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanbedrog
# Neuadd Llanbedrog
# Llanbedrog
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7PG

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanbedrog, sydd yn cwrdd yn neuadd bentref Llanbedrog, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae’r lleoliad yn agor am dri diwrnod yr wythnos ac mae yno dri o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 16 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae’r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.

Mae bron pob un o’r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae’r lleiafrif ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Medi 2006. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Medi 2014 a gan Estyn ym mis Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n drwyadl i herio’r plant yn ddyddiol
- addysgu cadarn yn ysgogi’r plant i wella’u gwaith
- ymarferwyr yn cydweithio’n gyson i wella profiadau dysgu a safonau’r plant
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a gweithgar
- ymddiriedaeth amlwg rhwng y plant a’r oedolion
- amgylchedd dysgu effeithiol yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- ystod o adnoddau ar gael i blant tu mewn i’r adeilad ac yn yr awyr agored, sy’n effeithio ar eu profiadau dysgu’n bwrpasol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella’r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i waith y lleoliad
- systemau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol yn arwain at osod targedau perthnasol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu’n broffesiynol a mynychu hyfforddiant perthnasol
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth
- cefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli
- partneriaethau pwrpasol gyda’r rhieni a’r ysgol leol
- defnydd synhwyrol o gyllid prin i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth a’r ardal allanol

## Argymhellion

A1 Gwella’r cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do a’r awyr agored

A2 Defnyddio asesiadau dyddiol yn fwy cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Cryfhau prosesau gweinyddol y pwyllgor rheoli fel bod cofnodion clir o effeithiolrwydd y gwaith

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm pwrpasol, sy’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Maent yn cynllunio profiadau dysgu’n drwyadl. O ganlyniad, mae’r gweithgareddau yn targedu anghenion a diddordebau’r plant yn synhwyrol.

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu gweithgareddau cyffrous a diddorol i’r plant ddatblygu fel dysgwyr annibynnol tu mewn a thu allan i’r adeilad. Maent yn cymell y plant i ddysgu’n ymarferol trwy chwarae rôl yn yr ardal gartref a phlannu blodau mewn potiau yn yr awyr agored.

Mae’r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys trefnu cwrs rhwystrau yn y neuadd a dewis hadau a grawnfwyd addas i osod ar y bwrdd adar. Mae gweithgareddau o’r math hwn yn ychwanegu’n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n drylwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a medrau meddwl y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio’r plant i berfformio ar eu gorau’n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y gaeaf drwy adeiladu dynion eira allan o does a brigau a pharu sanau amryliw ar lein ddillad. Mae’r ddarpariaeth o brofiadau dysgu yn effeithiol ac yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn nysgu’r plant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn fuddiol i’r plant. Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn fodelau da o’r iaith. Maent yn cynorthwyo’r plant sy’n dechrau dysgu’r iaith yn llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio’r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau ysgogol. Maent yn herio a holi’r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o’r plant o’r iaith yn datblygu’n effeithiol ac maent yn ymateb ag ymadroddion cyfarwydd mewn amser byr.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, gwneud lobscows a phobi pice ar y mân.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, chwaraewr cryno ddisg, cyfrifiadur, llechi electronig a theganau i’w rhaglennu. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus, gyrru beiciau’n fywiog yn y neuadd ac arbrofi gyda sebon eillio a phaent.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys ymweliadau i’r parc lleol, ysgol y pentref, y traeth a gwyliau’r Mudiad Meithrin. Mae ymwelwyr fel y gwasanaethau brys, y postmon a milfeddyg yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant, yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithio’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio’r plant yn gyson mewn tasgau ffocws a pharhaus. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu hysgogi a’u cymell i lwyddo. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghraifft o hyn yw arbrofi yn ardal adeiladu y neuadd a’r gegin fwd allanol.

Anogir y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol gan yr holl ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys caniatáu’r plant i symud yn rhydd rhwng tu mewn a thu allan yr adeilad. Mae hyn yn cyfyngu rhywfaint ar ddewisiadau’r plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio holi’n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Gwneir hyn wrth drafod nodweddion adar gwahanol fel y robin goch a’r fwyalchen, cymharu doliau o wahanol ddiwylliannau a physgota am rifau mewn twba o iâ a dŵr.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae’r dystiolaeth yn cyfatebu’n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau bob dydd yn effeithiol yn y llyfrynnau cofnodi newydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r asesiadau dyddiol hyn yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae’r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae llyfryn cynhwysfawr o luniau, gwaith ac anodiadau diddorol ar gael i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol yn llwyddiannus i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill, dweud diolch a gweddïo. Maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus ac yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd yn ddyddiol. Enghraifft effeithiol yw’r system o benodi helpwyr y dydd, sy’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae’r plant yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n dda at eu datblygiad a’u lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu’n llwyddiannus. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae’r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau’n rhan o ddiet synhwyrol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gywir pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi eu mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Drwy hyn, mae’r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda’r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal i’r holl feysydd dysgu a’r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol. Mae ymarferwyr yn herio plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol, gofalus a sensitif.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau bob dydd a’r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar

gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae’r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o’r byd yn flynyddol, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn effeithiol.

Defnyddir adnoddau’n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae’r adnoddau wedi eu gosod ar lefel y plant ac mae’r plant yn gallu cyrraedd y cyfarpar yn rhwydd. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus, wrth iddynt drafod llyfrau, defnyddio llechi electronig a phalu yn yr ardal allanol. O ganlyniad, caiff ystod eang yr adnoddau eu defnyddio’n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, y tasgau â ffocws a’r cyfleoedd i gyfoethogi’r dysgu.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae’n ddiogel. Er bod yr ardal allanol yn gyfyng, mae’n cael ei defnyddio’n bwrpasol. Mae’n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo, byrddau adar a chegin fwd. Mae’r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn synhwyrol, sef y parc a’r traeth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer creu gwelliannau sydd wedi’i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr profiadol yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a gynigir.

Mae’r arweinydd yn monitro bod y ddarpariaeth ddyddiol ar gyfer y plant yn ddiddorol a difyr. Mae hi’n hyrwyddo datblygiadau newydd yn bwrpasol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio’r proffil Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, cofnodi asesiadau dyddiol mewn llyfrynnau penodol ar gyfer bob plentyn a datblygu’r ardal allanol yn llwyddiannus.

Mae’r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac yn gweithio’n ddyddiol fel tîm. Mae’r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Mae’r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau’n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu patrymau iaith yn y Gymraeg.

Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly’n rhoi o’u gorau.

Mae’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian ac maent yn monitro’r cyllid yn gyson. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau gweinyddol yn ddigon trylwyr ac, o ganlyniad, nid oes cofnod digon o effeithiolrwydd ei gwaith.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn effeithiol, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad, sydd wedi ei seilio ar system feintiol yr awdurdod lleol. Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio effeithiol a gwybodus o ddydd i ddydd, ynghyd â'r cyfarfodydd staff, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus.

Mae'r hunanarfarnu'n rhoi ystyriaeth bwrpasol i farn ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r cyfan o fudd i'r lleoliad i gael darlun llawnach o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn bwrpasol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd datblygu yn effeithiol.

Mae'r arweinydd yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau gweithredu. Mae hi a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella. Mae'r arweinwyr wedi gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill, yn enwedig wrth ddatblygu'r awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r cyngor ar sut i wella cofnodi cyflawniadau plant yn ddyddiol wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr asesu. Hefyd, mae'r defnydd synhwyrol o broffil y Cyfnod Sylfaen wedi canolbwyntio ar fannau cychwyn plant a'u cynnydd yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n gyson gyda phartneriaid i wella profiadau a safonau'r plant. Mae effaith y partneriaethau strategol yn gadarn, yn enwedig y cysylltiad cryf rhwng y lleoliad â'r rhieni, sy'n gweithio'n ddiwyd i gynnal y lleoliad yn ariannol. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o'i waith. Annogir rhieni i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau llwyddiannus gyda ysgol y pentref. Mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo'r plant yn effeithlon. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol. Maent hefyd yn mynychu cyngherddau a gweithgareddau yn yr ysgol ac mae hyn yn paratoi'r plant yn dda am eu trosglwyddiad i addysg gynradd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgareddau'r syrcas, y clwb creu a pherfformiadau cerddorol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn gweithio'n

frwd i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal ymysg y plant.

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n synhwyrol gyda asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae’r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi’n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol ddefnyddiol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinyddiaeth yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau’n effeithiol. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn.

Mae’r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae’r systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n greadigol i gefnogi’r dysgu; mae hyn yn cynnwys y defnydd o‘r neuadd am weithgareddau corfforol a’r ardal allanol i ymholi ac ymchwilio.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â hi ers sawl blwyddyn. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n bwrpasol. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a’r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 8 | 5 | 1 | 0 | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 50% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 16 | 9 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 56% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 11 | 3 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 9 | 6 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 38% | 6% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 8 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 50% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 6 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 16 | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 31% | 19% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 6<br>38% | 6<br>38% | 2<br>12% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 7<br>44% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 4<br>25% | 9<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 16 | 9<br>56% | 6<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |